DADL DROS GADWRAETH DDIGIDOL SY'N AMGYLCHEDDOL GYNALIADWY

Keith Pendergrass, Archifydd Digidol, Ysgol Fusnes Harvard

Mae'r holl bethau a wnawn yn cyflym ddiradddio ein hamgylchedd naturiol ac yn arwain at gyfres o argyfyngau rhyng-gysylltiedig a all ddadsefydlogi'n sylweddol ein cymdeithas fyd-eang. I osgoi'r canlyniadau mwyaf trychinebus, rhaid i ni symud – yn ystod yr ychydig o flynyddoedd nesaf – i fodelau cynaliadwy ym mhob agwedd ar gymdeithas. Yn y sgwrs hon fe gyflwynir dadl dros newid cyflym, ond meddylgar, i gadwraeth ddigidol gynaliadwy sy'n cymryd i ystyriaeth effeithiau amgylcheddol cylchred-oes lawn y dechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu y mae ein hymdrechion cadwraeth ddigidol yn dibynnu arni. Drwy gymhwyso fframwaith cynaliadwyedd Ehrenfeld, a dod ynghyd fel cymuned fyd-eang o ymarferwyr, gallwn leihau'n sylweddol effeithiau negyddol ein gwaith ond hefyd barhau i ddiogelu ein gwaddol digidol a darparu canlyniadau llwyddiannus ar gyfer ein cymunedau.

Bywgraffiad

Keith Pendergrass yw'r archifydd digidol sy'n gyfrifol am Gasgliadau Arbennig Llyfrgell Baker yn Ysgol Fusnes Harvard ac am ddatblygu a goruchwylio llifoedd gwaith ar gyfer deunyddiau digidol-anedig. Mae ei ymchwil diweddar gyda Walker Sampson, Tessa Walsh, a Laura Alagna yn edrych ar sut y gellir ymgorffori egwyddorion cynaliadwyedd amgylcheddol yn arfer safonol archifau digidol a chadwraeth ddigidol. Mae ganddo MSLIS o Goleg Simmons a BA mewn Hanes o Goleg Amherst.